


CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom am 7y.h. ar nos Fawrth Mehefin 8 2021

Presennol :- Cynghorwyr :- Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Selwyn Griffiths, Gwilym Jones, Malcolm Humphreys, Ian Jones, Bethan Rees Jones, Richard Williams, Alwyn Gruffydd, Carol Hayes, Jason Humphreys, Dr Melfyn Edwards, Marian Roberts (Clerc)

39.6 .21. Ymddiheuriadau :- Stuart Nashir-Hallard, Aled Griffith, Nia Jeffreys
Oherwydd problemau technegol methodd y Cyng Linda Wyn Roberts a mynychu'r cyfarfod.

40.6.21 Adroddiad y Cadeirydd.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod ac estynwyd croeso arbennig i'r ddau Gynghorydd newydd, Cyng Malcolm Humphreys a'r Cyng Linda Wyn Roberts. Diolchwyd iddynt am ymrwymo i'r gwaith ac am ysgwyddo'r cyfrifoldeb o fod yn Gynghorydd Tref.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ddarparu y pecyn dogfennau ar gyfer y cyfarfod heno, ac i Cyng. Gwilym Jones am barhau i ddarparu y platfform 'Zoom'. Roedd yn edrych ymlaen yn fawr i'r amser lle bydd y Cyngor Tref yn cynnal cyfarfodydd mewn person ac yn gyhoeddus.

Braf oedd gweld fod gweithgareddau i blant y fro megis tripiâu ysgol a chlybiau ac ati wedi cynnig profiadau pleserus iddynt ar ôl cyfnod anodd. Diolchodd i bawb sy'n gweithio i ymdrechu i wella bywyd ein plant. Braff hefyd oedd gweld y dref a'r ardal yn brysur dros gyfnod hanner tymor a bod busnesau yn cymryd mantais o'r cynnydd mewn masnach gan ymwelwyr Gobeithio bydd hyn ddim yn golygu problemau gwrth gymdeithasol yn enwedig gyrru ceir ar gyflymdra uchel drwy strydoedd y dref a'n pentrefi nac i yrru peryglus ar draeth Craig Ddu.

Hoffai ddiolch i'r gwasanaethau brys wrth iddynt ymateb i ddigwyddiadau a damweiniau yn yr ardal yn ddiweddar.

41.6.21. Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-

Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Mai 11 2021

Penderfynwyd :- derbyn y Cofnodion yn gywir yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Richard Williams yn eilio.

Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Llawn Mai 11 2021

Penderfynwyd :- derbyn y Cofnodion yn gywir yn ôl cynnig Cyng Richard Williams, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio

42.6 .21 Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.

Cyng Malcolm Humphreys – 51.6.21 Cyng Selwyn Griffiths – Adroddiad ar gyfarfod yr Harbwr

Materion i'w dwyn gerbron :-

43.6 .21 Cynnig Cyng Stuart Nashir-Hallard :- Cofnodi fideo / recordiad llais o

gyfarfodydd ar gyfer cywirdeb cofnodi cofnodion a thryloywder.

Penderfynwyd :- Oherwydd absenoldeb Cyng Stuart Nashir-Hallard penderfynwyd gohirio'r mater tan y cyfarfod nesaf ar Orffennaf 13

44.6.21 Cyng Richard Williams – diweddariad Mainc Coffa Glenda Burke

Roedd y Cyng Richard Williams yn adrodd yn ôl i ddweud fod teulu'r diweddar Glenda Burke yn hoff iawn o'r syniad o osod mainc er cof am Glenda ac roeddynt yn rhoi eu sêl bendith i wireddu'r syniad. Roedd Cyng Richard Williams wedi derbyn pris yn lleol ac wedi clustnodi lle gwag yn y parc yn agos i leoliad y goeden Nadolig fel lleoliad i osod y fainc. Cytunodd y Cyng Selwyn Griffiths i gysylltu efo Cyngor Gwynedd i gael caniatâd i osod y fainc.

Penderfynwyd :- y byddai'r Cyng Richard Williams yn gyfrifol am drefnu'r gwaith ac y byddai'n gyrru copi o bob gohebiaeth i'r Clerc.

45.6.21 Cyng Richard Williams - Adrodd yn ôl o gyfarfod Zoom Cyngor Tref Nefyn 27.5.21

Roedd Cyng Richard Williams am i'r Cyngor ddiolch i Gadeirydd Cyngor Tref Nefyn, Rhys Tudur ac i Clerc Cyngor Tref Nefyn am eu gwaith yn dod â'r argyfwng tai haf i sylw'r cyhoedd. Maent yn apelio am gefnogaeth i erfyn ar y llywodraeth i weithredu ar 7 o argymhellion a wnaeth y Cyng Simon Brooks yn ei adroddiad ar y mater. Byddant yn cynnal cyfarfod eto ar Zoom ar 24.7.2021 a cynhelir cyfarfod Cyngor Gwynedd yn fuan i drafod y broblem. Roedd Cyng Richard am i'r Cyngor Tref yrru llythyr i Gyngor Tref Nefyn yn datgan gwerthfawrogiad am gymryd yr awennau ac am eu harweiniad wrth geisio datrys y broblem tai haf.

Penderfynwyd :- gweithredu ar y cynnig a gyrru copi o'r llythyr hefyd i Mark Drakeford yn ôl gwelliant y Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Jason Humphreys yn eilio.

46.6.21 Cynnig Cyng Richard Williams - anfon llythyr at Mabon ap Gwynfor/Lis Savile Roberts a Craig ap Iago i ofyn "Beth ydi'r bwriad adeiladu Tai Fforddiadwy yn Porthmadog?"

Nodwyd fod yr argyfwng tai fforddiadwy yn fater sydd wedi cael cryn sylw gan y Cyngor Tref yn y gorffennol ac er ysgrifennu at y swyddogion perthnasol yng Nghyngor Gwynedd nid oes ymateb pendant wedi dod i law. Ar ôl llythyru ym mis Mawrth 2020 ac eto ar 13.11.2020 yn mynegi siom am ei ymateb ni chafwyd ymateb yn ôl gan Craig ap Iago ynglyn â'r mater.

Penderfynwyd :- Ysgrifennu at Craig ap Iago unwaith eto (a chopi i Mabon ap Gwynfor, Lis Savile Roberts a Dyfrig Siencyn) yn mynegi siom am iddo beidio ag ymateb i'r llythyrau blaenorol ac yn gofyn am ddiweddariad ar y sefyllfa.

47.6.21 Penderfynu ar gynrychiolaeth ar Gorff Llywodraethol Ysgol Eifion Wyn

Penderfynwyd :- gohirio'r mater tan y cyfarfod nesaf ar Orffennaf 13.

48.6.21 Penderfynu ar gynrychiolaeth ar Bwyllgor Y Ganolfan

Penderfynwyd :- gohirio'r mater tan y cyfarfod nesaf ar Orffennaf 13.

49.6.21 Cynnig Cyng Aled Griffith - Cyflwyno 40 m.y.a. ar hyd y Cob ac ymestyn 30 m.y.a. heibio dechrau'r llwybr cerdded/beicio (ochr Porthmadog).

Oherwydd absenoldeb Cyng Aled Griffith penderfynwyd gohirio'r mater tan y cyfarfod nesaf ar Orffennaf 13.

50.6.21 Cynnig Cyng Aled Griffith - Ysgrifennu at Rhian Wyn Williams i ofyn am ddiweddariad am sefyllfa'r llochesi bws Tremadog

Oherwydd absenoldeb Cyng Aled Griffith penderfynwyd gohirio'r mater tan y cyfarfod nesaf ar Orffennaf 13.

51.6.21 Cyng Selwyn Griffiths – Adroddiad ar gyfarfod yr Harbwr.

Cafwyd cyfarfod gyda'r swyddogion perthnasol ynglyn â goleuadau'r harbwr a bydd Cyng Malcolm

Humphreys yn cysylltu gyda threfi eraill sydd â harbwr i weld sut y mae nhw'n trefnu ac yn ariannu eu goleuadau.

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys

52.6.21 Cyng Selwyn Griffiths – Adroddiad ar gyfarfod Bank Place

Cafwyd cyfarfod addawol iawn gyda'r swyddogion perthnasol ynglyn â phroblem gor-yrru i fyni Bank Place. Roedd Iwan Trefor yn agored iawn i'r syniad o farcio'r ffordd/gosod llinellau/ gosod arwyddion er mwyn ceisio datrys y broblem.

53.6.21 Cyng Selwyn Griffiths - Cynnig bod y Cyngor yn sefydlu is-grwp i edrych ar ddulliau i hyrwyddo ardal Cyngor Tref Porthmadog

Eglurodd y Cyng Selwyn Griffiths fel ,yn y gorffennol, yr oedd gan y Siambwr Fasnach lyfryn a map ynddo yn cynnwys gwybodaeth a hanes tref Porthmadog ac roedd am i'r Cyngor Tref ystyried hyn eto fel modd i godi proffil y dref.

Cafwyd trafodaeth am union eiriad y cynnig a cytunwyd ar " sefydlu is-grwp i edrych ar ddatblygu ardal Cyngor Tref Porthmadog ".

Penderfynwyd :- gweithredu ar y cynnig gan y Cyng Selwyn Griffiths , Cyng Richard Williams yn eilio . Bydd y Clerc yn gyrru ebost i aelodau'r Cyngor Tref yn eu gwahoddi i fod yn aelod o'r Gweithgor.

54.6.21 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dyddiad cau Rhaglen Gorffennaf 13 - Gorffennaf 3ydd 2021, (Rheolau Sefydlog 8.1 " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)

- Cyng Jason Humphreys – trafod lleoliad cyfarfodydd y Cyngor.
- Cynnig Cyng Stuart Nashir-Hallard :- Cofnodi fideo / recordiad llais o gyfarfodydd ar gyfer cywirdeb cofnodi cofnodion a thryloywder.
- Penderfynu ar gynrychiolaeth ar Gorff Llywodraethol Ysgol Eifion Wyn
- Penderfynu ar gynrychiolaeth ar Bwyllgor Y Ganolfan
- Cynnig Cyng Aled Griffith - Cyflwyno 40 m.y.a. ar hyd y Cob ac ymestyn 30 m.y.a. heibio dechrau'r llwybr cerdded/beicio (ochr Porthmadog).
- Cynnig Cyng Aled Griffith - Ysgrifennu at Rhian Wyn Williams i ofyn am ddiweddariad am sefyllfa'r llochesi bws Tremadog
- Cyng Dr Melfyn Edwards – Trafod dyfodol Eglwys Sant Ioan

55.6.21 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm)

Nodwyd fod angen golygu'r rhestr Aros am Ateb gan na ddisgwylir ateb i lawer o'r llythyrau.

Roedd y Cyng Richard Williams yn holi beth ddigwyddodd i'r llythyr a anfonwyd ynglyn â chyflwr strydoedd cefn Porthmadog gan nad oedd sôn amdano ar y rhestr.

Penderfynwyd :- bydd y Clerc yn golygu'r rhestr ac yn cynnwys y llythyr am y strydoedd cefn yn rhestr mis Gorffennaf.

GOHEBIAETH :

56.6.21 ADRAN LLWYBRAU, Chwynladdwr

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

57.6.21 RICHARD SHIRRES, Ceisiadau cynllunio

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a'r Clerc i ysgrifennu llythyr o ddiolch.

58.6.21 BOB NORTHOVER, Cais cynllunio Cornhill

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a'r Clerc i ysgrifennu llythyr o ddiolch.

59.6.21 GARETH JONES, Problem Canglwm

Penderfynwyd :- ysgrifennu'n ôl i ddiolch iddo am dynnu sylw'r Cyngor i'r mater a gyrru ei llythyr

ymlaen i Steffan Jones, Cyngor Gwynedd er mwyn iddo weithredu arno rhagblaen yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

60.6.21 ADRAN AMGYLCHEDD, Cyfyngiadau parcio Morfa Bychan

Wedi trafod y mater yng nghyfarfod y Cyngor ar Fai 11 2021.

61.6.21 BLEDDYN RHYS, Archwiliad mewnol – Cronfa'r Cadeirydd

(Nid oedd y Cadeirydd yn rhan o'r drafodaeth yma)

Eglurwyd fel yr oedd yr Archwiliwr mewnol wedi tynnu sylw at Gyfri Cronfa'r Cadeirydd yn ei adroddiad ac fel y dylai gael ei gofnodi fel gwariant gan iddo fod yn enw'r Cyngor Tref. Mae'n dyfynnu Paul Egan, Dirprwy Brif Weithredwr a Rheolwr Adnoddau Un Llais Cymru.

"Mae Paul o'r farn mai trosglwyddiad (nid gwariant) yw'r £1,200 (ac felly ni ddylai gael ei gynnwys yn y cyfrifon), ond dylai'r gwariant sydd yn dod o Gronfa'r Cadeirydd gael ei adnabod yn y llyfr arian a'i gynnwys yn y cyfrifon. Mae hyn oherwydd bod Cronfa'r Cadeirydd yn gyfrif banc sydd yn enw'r Cyngor, ac nad oes gan y Cadeirydd yr hawl i benderfynu ei hyn pwy sy'n derbyn arian gan y Cyngor."

Penderfynwyd:- pasio'r mater ymlaen i'r Pwyllgor Cyllid ar 27.7.21 yn ôl cynnig Cyng Richard Williams, Cyng Jason Humphreys yn eilio.

62.6.21 COMISIYNYDD PLANT, Trefnu digwyddiadau

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

63.6.21 ADRAN PRIFFYRDD, Rhaglen waith Mehefin 2021

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

64.6.21. Materion Ariannol :

Derbyniadau :

CAE PAWB	Rhent 2021 - 2022	£ 690.00
CYLLID A THOLLAU EI MAWRHYDI	Ad-daliad TAW 2021	£ 3,999.27
HSBC	Llog Banc Mai 2021	£ 00.28

Audurdodwyd y taliadau canlynol :-

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Mai 2021	£ 47.00
2	Marian Roberts	Inc i'r printer	£ 18.68
3	Marian Roberts	Costau teithio Mai 2021	£ 8.33
4	Marian Roberts	Cyflog Clerc Mai 2021	£ 639.39
5	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth incwm cyflog Clerc Mai 2021	£ 159.85
6	Marian Roberts	24 stamp ail ddsbarth	£ 15.84
7	B2 Business Systems	Llungopio hyd at 5.5.2021	£ 31.78
8	Marian Roberts	Ad-daliad am AVG anti-virus i'r gliniadur 2021 - 2022	£ 67.49
9	John Evans	Gwasanaeth Hebogwr	£ 300.00

(Mae copi o bob sic ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

65.6.21 Archwiliad Blynnyddol 2021

Adroddiad Archwiliad Mewnol a Ffurflen Flynyddol (amg) wedi eu derbyn gan Bleddyn Rhys, Cyngor Gwynedd. Bydd angen cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol cyn ei danfon ymlaen i'r

archwilwyr allanol.

Penderfynwyd :- cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol yn ôl cynnig y Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Jason Humphreys yn eilio.

66.6.21 Ceisiadau Cynllunio

(a) Rhif Cais.: C21/0091/44/LL(ebost 14.5.21)

Lleoliad: Tŷ Powdwr Ffordd Morfa Bychan, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UU
Bwriad: Adeiladu tŷ cwch / storfa gyffredinol wedi ei gladio mewn pren i ochr eiddo preswyl

PENDERFYNIAD :- GWRTHWYNEBIAD oherwydd iddo fod yn or-ddatblygiad, yn rhy fawr i'r lleoliad, mewn lle amlwg ac yn adeilad hanesyddol.

(b) Rhif Cais C21/0473/44/DT (ebost 18.5.21)

Lleoliad : Cwm Bach Ffordd Morfa Bychan, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UG

Bwriad : Estyniadau i dy annedd ynghyd ac ymestyn modurdy

PENDERFYNIAD :- DIM GWRTHWYNEBIAD

(c) Rhif Cais / Application No.: C21/0494/44/DT(ebost 25.5.21)

Lleoliad: 5 Rhos Gwelfor, Borth Y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9TR

Bwriad: Gosod balconi ar llawr cyntaf blaen adeilad

PENDERFYNIAD :- GWRTHWYNEBIAD oherwydd ei fod yn newid tirluniad yr ardal, yn newid cymeriad yr ardal ac yn gosod cynsail i ddatblygiad pellach.

(ch) Rhif Cais / Application No.: C21/0476/44/LL (ebost 26.5.21)

Lleoliad : 21 Cefn London, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NN

Bwriad: Dymchwel modurdy / warws unllawr a chodi ty annedd deulawr

PENDERFYNIAD :- rhoi amod tai fforddiadwy Adran 106 arno

Daeth y cyfarfod i ben am 8.35.

MARIAN ROBERTS
MEHEFIN 9 2021